Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 19 Mawrth 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(188)v3

1 **Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)**

Gweld y Cwestiynau

2 **Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)**

Gweld y Cwestiynau

3 **Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)**

Gweld y Cwestiynau

4 **Datganiad gan Darren Millar: Cyflwyno Bil arfaethedig Aelod – Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) (30 munud)**

5 **Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5468 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn mynegi pryder y dyfarnwyd graddau annisgwyl o isel i rai myfyrwyr a safodd fodiwlau Saesneg TGAU ym mis Ionawr 2014;

2. Yn croesawu adolygiad cyflym Llywodraeth Cymru o'r sefyllfa;

3. Yn nodi pwysigrwydd ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael i'r adolygiad; a

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i rannu natur y broses adolygu a'r dystiolaeth a gafwyd fel rhan o'r adolygiad mewn modd agored a didwyll.

**Cefnogir gan**:

Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Aled Roberts (Gogledd Cymru)

6 **Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5469 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y gwelliant diweddar yn economi'r DU yn sgîl camau gweithredu Llywodraeth y DU.

2. Yn cydnabod mai 0.7% oedd twf cyffredinol cynnyrch mewnwladol crynswth y DU ym mhedwerydd chwarter 2013.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydweithio â Llywodraeth y DU i sicrhau twf economaidd hirdymor.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn**:

**Gwelliant 1 - Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Dileu pwynt 1.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ym mhwynt 1, dileu popeth ar ôl 'cydnabod' a rhoi yn ei le 'yr amodau economaidd sy'n gwella'.

**Gwelliant 3 – Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu bod y data CMC diweddaraf yn dangos dirywiad yn CMC Cymru o'i gymharu â'r cyfartaledd yn yr UE.

**Gwelliant 4 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod dangosyddion economaidd allweddol, fel ystadegau CMC a GYC, yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd er mwyn cyfrannu at bolisïau yn y dyfodol.

**Gwelliant 5 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn penderfynu bod angen cymryd camau ar frys i wella ffyniant economaidd Cymru, yn cynnwys mabwysiadu strategaeth wedi'i seilio ar sgiliau ac sy'n cael ei harwain gan allforio.

**Gwelliant 6 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r effaith gadarnhaol y bydd creu mwy na miliwn o brentisiaethau yn Lloegr ers 2010 wedi'i chael ar economi'r DU ac yn gresynu at y ffaith bod nifer y bobl ar brentisiaethau yng Nghymru wedi gostwng dros 26% rhwng 2006 a 2012.

7 **Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM5467 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth a dilyniant gyrfa drwy:

a) Ymestyn gofal plant fforddiadwy ledled Cymru;

b) Sicrhau bod cyrff y sector cyhoeddus yn cymryd camau gweithredu cadarnhaol i gynyddu amrywiaeth;

c) Gweithio gyda chyflogwyr mawr i gynyddu cyfleoedd i bobl anabl;

d) Cefnogi'r cyflog byw a dileu arferion cyflogaeth gwael fel contractau dim oriau.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys is-bwynt b) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Adolygu beth sy'n achosi'r cynnydd mewn llwythi gwaith ac absenoldeb salwch oherwydd straen ymysg gweithwyr yn y sector cyhoeddus, yn benodol nyrsys ac athrawon.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu is-bwynt d) a rhoi yn ei le:

Croesawu'r cynnydd yn y lwfans personol i £10,000 yn ogystal ag ymgynghoriad Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau y DU ar gontractau dim oriau.

Mae ymgynghoriad Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau y DU i'w weld yn:

https://www.gov.uk/government/consultations/zero-hours-employment-contracts
[Saesneg yn unig]

*[Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu popeth yn is-bwynt d) a rhoi yn ei le:

Cefnogi arferion rheoli da sy'n sicrhau cysylltiadau da yn y gweithle a chyflogaeth gynaliadwy.

**Gwelliant 4 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod sgiliau gweithio wrth galon ei Hadolygiad Cwricwlwm ac Asesu newydd er mwyn lleihau'r rhwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu o ran cyflogaeth.

**Cyfnod Pleidleisio**

8 **Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5466 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Achub ein Gwasanaethau – Ymgyrch pobl Sir Benfro i gadw gwasanaethau yn ysbyty Llwynhelyg.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 25 Mawrth 2014

# Cwestiynau llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 12 Mawrth 2014 i'w hateb ar 19 Mawrth 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

1. **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gwasanaethau presennol yn Ysbyty Llwynhelyg, yn dilyn ei gyfarfod gyda'r Tîm Gweithredu i Achub Ysbyty Llwynhelyg? OAQ(4)0408(HSS)

2. **Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: Pa ddarpariaeth y mae'r Gweinidog yn ei gwneud ar gyfer diagnosis a chymorth i'r rhai ar y sbectrwm awtistig? OAQ(4)0404(HSS)

3. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd yn 2014 i fynd i'r afael â'r broblem o apwyntiadau meddyg teulu a gollwyd yng Nghymru? OAQ(4)0409(HSS)

4. **Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a fydd yr ymchwiliad gan yr Athro June Andrews i Ysbyty Tywysoges Cymru yn ymdrin â chwynion hanesyddol sydd dros dair blwydd oed? OAQ(4)0403(HSS)

5. **William Graham (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y llawdriniaethau a drefnwyd sydd wedi cael eu canslo dros y chwe mis diwethaf mewn ysbytai yn Nwyrain De Cymru? OAQ(4)0410(HSS)

**6. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl gweld gwelliannau systematig i brosesau'r GIG o ymdrin â chwynion, yng ngoleuni'r adolygiad o'r mater hwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar? OAQ(4)0416(HSS)

**7. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau'r rhestrau aros ar gyfer triniaeth y galon yn ne a gorllewin Cymru? OAQ(4)0406(HSS)**W**

**8. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau ffisiotherapi yng Nghymru? OAQ(4)0418(HSS)

**9. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i wella mynediad i ofal meddygol sylfaenol yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0413(HSS)

**10. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg yn ysbytai gogledd Cymru? OAQ(4)0415(HSS)**W**

**11. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ffiniau daearyddol ymchwiliad yr Athro Andrews i wraidd y mater ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg? OAQ(4)0407(HSS)

**12. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu plant rhag effeithiau iechyd ysmygu goddefol? OAQ(4)0414(HSS)

**13. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros ambiwlans yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0412(HSS)**W**

**14. Leanne Wood (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Raglen De Cymru i ad-drefnu ysbytai? OAQ(4)0411(HSS)

**15. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses asesu unedig ar gyfer cael mynediad i ofal cymdeithasol i oedolion? OAQ(4)0417(HSS)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am gyfeirio Biliau'r Cynulliad i'r Goruchaf Lys? OAQ(4)0058(CG)**W**

**2. Mick Antoniw (Pontypridd):** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi eu cael gyda Chomisiwn y Gyfraith ynglŷn ag Adran 21 o Fil drafft Cymru? OAQ(4)0060(CG)

**3. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am hygyrchedd deddfwriaeth Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0059(CG)**W**

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

**1. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa safonau sydd ar waith o ran darparu rhaglenni Dechrau'n Deg? OAQ(4)0158(CTP)**W**

**2. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru a fydd yn cyflawni ei hagenda datblygu cynaliadwy? OAQ(4)0154(CTP)

**3. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y sector gwirfoddol yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0142(CTP)

**4. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar gyllid y trydydd sector? OAQ(4)0148(CTP)

**5. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo undebau credyd ledled Cymru? OAQ(4)0143(CTP)

**6. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y bobl sy'n trefnu benthyciadau llog uchel yng Nghymru? OAQ(4)0150(CTP)

**7. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i drechu tlodi yn Arfon? OAQ(4)0146(CTP)**W**

**8. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa feini prawf y mae'r Gweinidog yn eu defnyddio i ddyrannu cyllid Dechrau'n Deg i awdurdodau lleol? OAQ(4)0157(CTP)**W**

**9. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol? OAQ(4)0147(CTP)

**10. Russell George (Sir Drefaldwyn):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cryfhau'r sector gwirfoddol yng Nghymru? OAQ(4)0155(CTP)

**11. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r newidiadau disgwyliedig yn ei flaenoriaethu ar gyfer trechu tlodi yng Nghaerdydd ym mlwyddyn ariannol 2014/15? OAQ(4)0151(CTP)

**12. Julie James (Gorllewin Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am integreiddio rhaglenni sydd wedi eu cynllunio i gynorthwyo teuluoedd? OAQ(4)0153(CTP)

**13. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gofal plant yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0149(CTP)**W**

**14. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddangosyddion allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer nodi tlodi gwledig? OAQ(4)0144(CTP)

**15. Elin Jones (Ceredigion):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo undebau credyd yng Ngheredigion? OAQ(4)0145(CTP)**W**